OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 880 (Cy. 193)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Cyffordd 33 (Capel Llanilltern) i Groes Cwrlwys, Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Awst 2020* |
| *Yn dod i rym* | *22 Awst 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4232, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Cyffordd 33 (Capel Llanilltern) i Groes Cwrlwys, Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 22 Awst 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 ar 22 Awst 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A4232 Llundain i Abergwaun.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Awst 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

1. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gogledd yr A4232 wrth Gyfnewidfa Croes Cwrlwys.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd yr A4232 sy'n ymestyn o bwynt 352 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Croes Cwrlwys hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cyffordd 33 Capel Llanilltern.

3. Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r de yr A4232 wrth Gyfnewidfa Croes Cwrlwys.

4. Y darn o gerbytffordd tua'r de yr A4232 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cyffordd 33 Capel Llanilltern (gan gynnwys y lôn neilltuedig tua'r de) hyd at bwynt 352 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Croes Cwrlwys.